PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# POLISI DIOGELWCH GYRWYR A CHERBYDAU

| **Dyddiad** | **Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid** | **Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau** |
|---|---|---|
| 1 Medi 2009 | Cyhoeddiad cyntaf | |
| 18 Gorffennaf 2016 | Newidiadau | |
| 15 Gorffennaf 2022 | Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau | 26 Chwefror 2019, adolygwyd Mehefin 2022 |

| **Swyddog Polisi** | **Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol** | **Cymeradwywyd gan** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Iechyd, Diogelwch a Lles y Campws | Ysgrifennydd y Brifysgol | Pwyllgor Iechyd a Diogelwch | 21 Mai 2009 |

Caiff y polisi hwn ei adolygu nesaf yn 2025

## 1. RHAGARWEINIAD

Yn 2018, canfu astudiaeth bwysig a gynhaliwyd ar ran Highways England a’r bartneriaeth elusennol Roadsafe, fod bron i draean (29 y cant) o’r holl farwolaethau ar y ffyrdd yn y Deyrnas Unedig a 21 y cant o’r holl anafusion (pobl wedi eu lladd, eu hanafu’n ddifrifol ac wedi eu hanafu ychydig) yn digwydd mewn gwrthdrawiadau wrth i bobl yrru wrth eu gwaith.

Mewn llawer o achosion, gyrru yw’r gweithgaredd beunyddiol mwyaf peryglus y bydd unigolyn yn ei wneud yn y gwaith. Mae’n hanfodol felly bod systemau addas ar waith i sicrhau bod gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gyrru, cyhyd ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, yn cael eu cyflawni'n ddiogel, a bod cerbydau a ddefnyddir ar gyfer gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith yn addas ac yn cael eu cadw mewn cyflwr addas i deithio ar y ffordd fawr.

Gallai methu â chadarnhau bod gyrwyr yn gymwys, a bod cerbydau yn addas ac yn cael eu cynnal a chadw, arwain at ddamwain fawr a goblygiadau posib hynny, yn ogystal ag erlyniad.

## 2. DATGANIAD POLISI A'I GWMPAS

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo’n ymarferol bosib, ac yn unol â’r gofynion statudol perthnasol ac arferion da, yw sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr â'r brifysgol.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r gofynion sydd ar y colegau a'r gwasanaethau proffesiynol (gwasanaeth) i sicrhau bod cerbydau preifat, cerbydau sy'n eiddo i'r brifysgol neu gerbydau sydd wedi eu prydlesu neu eu llogi ac a gaiff eu gyrru gan staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr ar waith yn ymwneud â'r brifysgol yn cael eu defnyddio a'u cynnal a’u cadw yn ddiogel.

Darperir gwybodaeth hefyd am ddyletswyddau a chyfrifoldebau cyffredinol y rhai sy'n gyrru wrth gyflawni gweithgarwch sy'n ymwneud â'r brifysgol.

**Mae’r polisi'n berthnasol i’r canlynol:**

- Pob coleg a gwasanaeth sy'n defnyddio cerbydau ac offer cysylltiedig e.e. trelars.
- Pob coleg a gwasanaeth sy'n awdurdodi aelodau staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr i yrru ar waith sy'n gysylltiedig â'r brifysgol, coleg neu wasanaeth.
- Yr holl aelodau staff, myfyrwyr ac eraill sy'n gyrru unrhyw gerbyd ar waith sy'n gysylltiedig â'r brifysgol.

**Ceir adrannau o’r polisi hwn nad ydynt yn berthnasol i’r canlynol:**

- Bysiau mini (gweler y Polisi Diogelwch Bysiau Mini).
- Cerbydau arbenigol (e.e. cerbydau pob tir, wagenni fforch godi).

**Nid yw’r polisi'n berthnasol i'r isod:**

- Cwmnïau bysiau moethus (PCV).
- Cludiant neu weithgarwch nad yw’n gysylltiedig â’r brifysgol, neu deithio i'r gwaith ac o'r gwaith.
- Cerbydau hurio preifat a thacsis trwyddedig.

## 3. POLISÏAU CYSYLLTIEDIG A'R DDEDDFWRIAETH

Yn ychwanegol at y ddyletswydd gofal gyffredinol ynglŷn â diogelwch ar y ffyrdd, mae ar y brifysgol a’i cholegau a'i gwasanaethau ddyletswyddau a rhwymedigaethau penodol o dan y Ddeddf Traffig Ffyrdd a Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith (PUWER) i sicrhau diogelwch cerbydau a ddarperir gan y brifysgol a diogelwch gyrwyr cerbydau a theithwyr pan yrrir cerbyd ar waith sy'n gysylltiedig â'r brifysgol.

## 4. DIFFINIADAU / TERMINOLEG

At ddibenion y polisi hwn, mae'r termau a'r diffiniadau isod yn berthnasol:

- Cerbyd: Unrhyw gerbyd sy'n defnyddio'r ffordd yn bennaf ac a ddefnyddir ar gyfer gwaith neu waith sy'n gysylltiedig â'r brifysgol. Nid yw'n cynnwys cerbydau arbenigol megis cerbydau pob tir, wagenni fforch godi a cherbydau fferm. [1][2][3][4]
- Gyrrwr: Mae 'gyrrwr' yn cyfeirio at unrhyw aelod staff, myfyriwr neu wirfoddolwr sy'n gyrru cerbyd ar waith sy'n gysylltiedig â'r brifysgol.
- Gwaith y brifysgol Unrhyw weithgaredd a gyflawnir ar ran y brifysgol neu o'i herwydd - ac eithrio teithio yn ôl a blaen i'r man gwaith arferol yn eich cerbyd eich hun / cerbyd preifat neu ar gludiant cyhoeddus.
- Wedi eu contractio i yrru: Staff y mae ganddynt gontract cyflogaeth (telerau cyflogaeth) gan y brifysgol sy'n nodi bod gofyn iddynt yrru cerbydau'r brifysgol fel rhan o'u dyletswyddau. Nid yw hyn yn cynnwys gyrru i'r gwaith ac oddi yno, defnydd achlysurol o geir neu gael mynediad at gerbyd i'w ddefnyddio ar waith y brifysgol.
- Llogi cerbydau cyffredinol: Llogi cerbydau am gyfnod byr. Er enghraifft llogi car i fynd i gynhadledd, llogi fan am wythnos i symud offer o un safle i un arall.
- Cerbydau 'sy'n eiddo / ar brydles' i goleg / gwasanaeth: Mae hyn yn cyfeirio at gerbydau y mae coleg neu wasanaeth yn berchen arnynt neu gerbydau sy'n cael eu cyflenwi gan drydydd parti, lle cytunwyd ar drefniant ffurfiol / prydles er mwyn defnyddio'r cerbyd hwnnw yn yr hir dymor.
- DVLA: Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau. Sefydliad Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am gynnal cofrestr o yrwyr a cherbydau ym Mhrydain Fawr.
- Dyfeisiau llaw: Unrhyw ddyfais sy'n gallu cyfathrebu'n rhyngweithiol hyd yn oed os nad yw'r nodwedd honno wedi ei galluogi ar y pryd. Mae hyn yn cynnwys dyfais yn y modd hedfan.

## 5. DYLETSWYDDAU'R BRIFYSGOL

Bydd y brifysgol yn gwneud y canlynol:

a. Trwy'r polisi hwn a'r dogfennau atodol, sefydlu system reoli i sicrhau bod cerbydau preifat sy'n eiddo i staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr sy'n cael eu gyrru gan staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr ar waith y brifysgol yn cael eu defnyddio a'u cynnal a'u cadw'n ddiogel.

b. Dirprwyo, yn unol â system reoli iechyd a diogelwch y brifysgol, y ddyletswydd i weithredu'r polisi hwn i ddeoniaid coleg a chyfarwyddwyr gwasanaethau proffesiynol.

## 6. CYFRIFOLDEBAU COLEGAU A GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae'r polisi hwn yn sefydlu egwyddorion sylfaenol ar gyfer rheoli diogelwch gyrwyr a cherbydau yn y brifysgol gan ei gwneud yn ofynnol i bob coleg / gwasanaeth wneud y canlynol:

---

1 Yn achos cerbydau nad yw'r polisi hwn yn berthnasol iddynt, dylid cynnal asesiad risg ar gyfer pob un yn unigol.

2 Cerbydau pob tir

3 Wagenni fforch godi

4 Gan gynnwys tractorau a phethau o'r fath

a. Paratoi asesiad risg sy'n rhoi sylw i'r defnydd a wneir o gerbydau a'u haddasrwydd, diogelwch Gyrwyr ac eraill yr effeithir arnynt gan yrwyr a cherbydau a ddefnyddir ar waith coleg / gwasanaeth.[5]

b. Adolygu'r asesiad risg yn rheolaidd gan rannu diweddariadau gyda'r unigolion perthnasol.

c. Sicrhau bod damweiniau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â gyrru yn cael eu hadrodd ac yn cael eu hymchwilio iddynt yn briodol.

*LLOGI CERBYDAU CYFFREDINOL - DIOGELWCH AC ADDASRWYDD:*

d. Trefnu i logi cerbydau cyffredinol trwy wefan prynu / yswiriant Prifysgol Bangor.

*CERBYDAU SY'N EIDDO NEU AR BRYDLES I'R BRIFYSGOL - DIOGELWCH AC ADDASRWYDD:*

e. Ystyried diogelwch ac addasrwydd, gan gynnwys cysur y gyrrwr (gyrwyr) wrth brynu / prydlesu cerbyd (gan gynnwys sgôr NCAP Ewropeaidd).

f. Sicrhau bod cerbydau'n cael eu cadw mewn cyflwr sy'n addas ar gyfer y ffordd fawr. Mae hynny'n cynnwys

   - Eu cynnal a'u cadw / gwasanaethu yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr / y modurdy gwasanaethu a phob rhwymedigaeth statudol arall e.e.
   - Sefydlu trefn ffurfiol i archwilio cerbydau'n wythnosol gan gynnwys cynnal a chadw cyffredinol e.e. llenwi poteli golch ffenestri, rhoi gwynt yn y teiars.

g. Rhoi systemau ar waith i sicrhau bod gyrwyr yn rhoi gwybod os yw cerbyd yn anniogel a pheidio â defnyddio'r cerbyd hyd nes y gwneir gwaith i'w atgyweirio ac i gadarnhau ei fod yn ddiogel ac yn addas ar gyfer y ffordd fawr.

h. Sefydlu systemau tebyg i'r rhai yn e) - g) ar gyfer offer sy'n gysylltiedig â cherbydau, e.e. trelars, tanceri.

*YSWIRIANT:*

i. Hysbysu'r Swyddog Yswiriant am bob cerbyd sy'n 'eiddo / ar brydles' i'r brifysgol.

j. Rhoi manylion unrhyw berson sy'n gyrru cerbydau 'sy'n eiddo / ar brydles' i'r brifysgol i'r Swyddog Yswiriant.

k. Sicrhau bod gyrwyr sy'n trefnu llogi cerbydau cyffredinol yn llenwi ffurflen ar-lein y Swyddfa Gyllid ar gyfer llogi ac yswirio cerbydau.

l. Atgoffa gyrwyr sy'n defnyddio eu cerbydau eu hunain / cerbydau preifat (e.e. yn hawlio milltiroedd) ar gyfer gwaith y brifysgol bod rhaid i'w cerbyd fod yn addas ar gyfer y ffordd, wedi ei yswirio at 'ddefnydd busnes', wedi pasio prawf MOT ac wedi ei drethu.

*HOLL YRWYR CERBYDAU SY'N EIDDO / AR BRYDLES I GOLEG / GWASANAETH:*

*Medrusrwydd* - sicrhau'r canlynol yn achos pob gyrrwr, aelod staff, myfyriwr **A** gwirfoddolwr:

m. Eu bod yn 21 mlwydd oed o leiaf (sylwer: 25 mlwydd oed o leiaf ar gyfer bysiau mini) oni chytunir fel arall gyda Swyddog Yswiriant (gweler q) isod). *Sylwer: Mae Undeb y Myfyrwyr yn gweithredu eu polisi eu hunain ar gyfer defnyddio bysiau mini a cherbydau eraill.*

[5] Gellir ei gynnwys, yn ddibynnol ar lefel y risg, yn nhrosolwg asesu risg y coleg / gwasanaeth

n. Yn meddu ar drwydded yrru lawn o'r Deyrnas Unedig (neu sy'n cael ei chydnabod gan y Deyrnas Unedig) ers o leiaf ddwy flynedd.

*Trefniadau Rheoli Cyffredinol:*

o. O leiaf yn flynyddol, cymeradwyo'n ffurfiol gyrwyr sy'n gyrru cerbydau 'sy'n eiddo / ar brydles i'r brifysgol' a gyrwyr sy'n llogi cerbydau i'w defnyddio ar waith y brifysgol[6] trwy wirio eu trwydded yrru a chwblhau'r ffurflen awdurdodi gyrwyr.[7]

p. Atgoffa gyrwyr bod rhaid iddynt adrodd ar unwaith am unrhyw 'bwyntiau cosb / ardystiadau' newydd / ychwanegol ac unrhyw gyfyngiadau eraill e.e. cyflyrau meddygol y mae'n rhaid sôn amdanynt wrth y DVLA.[8]

q. Gofyn am gyfarwyddyd gan y Swyddog Yswiriant ynglŷn â gyrwyr:

- O dan 21 oed, neu sydd wedi bod â thrwydded ers llai na 2 flynedd.
- Sydd â thrwydded yrru o dramor.
- Sydd â 7 neu ragor o bwyntiau cosb ar eu trwydded.
- Sydd ag ardystiadau ar eu trwydded.
- Sy'n dymuno gyrru dramor (gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon).
- Sy'n datgan bod ganddynt gyflwr meddygol.

r. Trefnu (os oes angen) i yrwyr sydd dan gontract i yrru fel rhan o'u telerau ac amodau cyflogaeth i gael asesiad iechyd gyrrwr o bryd i'w gilydd.[9]

s. Annog gyrwyr i gynnal gwiriadau sylfaenol ar y cerbyd cyn dechrau ar eu taith.

t. Sicrhau bod pob gyrrwr yn adrodd am ddamweiniau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â gyrru neu â'r cerbyd.

u. Sicrhau bod gyrwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel y maent wedi eu hamlinellu yn m) - t) uchod.

*COFNODION:*

v. Cadw cofrestr fesul blwyddyn o'r gyrwyr sy'n cael eu cymeradwyo ac o wiriadau trwyddedau gyrru (gweler o) uchod), sy'n cynnwys y math o gerbyd yr awdurdodwyd y gyrrwr i'w yrru.

w. Sicrhau bod gyrwyr sy'n gyrru cerbydau wedi eu llogi yn llenwi'r ffurflen ar-lein ar gyfer llogi ac yswirio cerbydau.

x. Cadw cofnod o bwy sy'n gyrru cerbydau 'sy'n eiddo / ar brydles' i goleg / gwasanaeth a phryd y gwneir hynny.

y. Yn achos pob cerbyd 'sy'n eiddo / ar brydles' i goleg / gwasanaeth a phob eitem y gellir ei thynnu e.e. trelars, tanceri:

---

6 Gellir cynnal gwiriadau trwydded yrru / awdurdodi gyrwyr sy'n llogi cerbydau fel rhan o'r broses llogi cerbydau

7 Nid yw'r drwydded yrru bapur gyfatebol yn ddilys mwyach, ac ni ychwanegir pwyntiau cosb / ardystiadau newydd ar y ffoto-gerdyn. Felly gall gyrwyr gael crynodeb ar-lein o'u trwydded yrru gan y DVLA a'i gyflwyno i'w coleg / gwasanaeth.

8 Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid adrodd wrth y DVLA am rai cyflyrau meddygol penodol: [www.gov.uk/driving-medical-conditions.](www.gov.uk/driving-medical-conditions)

9 Gellir trefnu asesiadau iechyd i yrwyr (staff sydd dan gontract i yrru) trwy'r Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol.

- Dylid cadw cofrestr o gerbydau o'r fath.
- Cadw cofnodion statudol ar gyfer pob cerbyd e.e. tystysgrifau profion MOT, treth ffordd, dogfennau cofrestru'r cerbyd (llyfr log), yswiriant.
- Cadw cofnodion cysylltiedig eraill yn ôl y gofyn, e.e. cynnal a chadw, gwasanaethu, archwiliad cerbydau wythnosol.

## 7. CYFRIFOLDEB GYRWYR

Yn ogystal â'r gofynion a roddir ar y brifysgol a'i cholegau a gwasanaethau, mae gan bob aelod staff, myfyriwr ac eraill sy'n gyrru ar waith y brifysgol gyfrifoldeb i wneud y canlynol:

a. Cydymffurfio â Rheolau'r Ffordd Fawr a Llawlyfr Diogelwch Gyrwyr a Theithwyr y brifysgol.

b. Peidio byth â dal na defnyddio ffôn symudol neu ddyfais llaw wrth yrru. Mae hyn yn cynnwys hyd yn oed os yn y modd hedfan neu i wneud tasg sylfaenol fel goleuo'r sgrin neu wirio'r amser.

c. Gyrru eu cerbyd eu hunain / cerbyd preifat yn unig (os ydynt yn hawlio milltiroedd), cerbyd wedi ei logi, neu gerbyd ac ôl-gerbyd 'sy'n eiddo / ar brydles' i goleg / gwasanaeth os:

   - Bod yn gymwys ac â hawl cyfreithiol i wneud hynny (h.y. bod y categorïau cywir ar y drwydded yrru).
   - Bod ganddynt yswiriant defnydd busnes os ydynt yn defnyddio yswiriant preifat / cerbyd eu hunain, neu yswiriant y brifysgol os ydynt yn gyrru cerbydau wedi eu llogi hurio neu gerbydau 'sy'n eiddo / ar brydles' i goleg / gwasanaeth.
   - Wrth logi cerbyd neu yrru cerbyd 'sy'n eiddo / ar brydles' i goleg / gwasanaeth eu bod,

      i. yn 21 oed o leiaf (25 ar gyfer bysiau mini) ac yn meddu ar drwydded yrru lawn y Deyrnas Unedig ers o leiaf ddwy flynedd.

      ii. eu bod wedi eu hawdurdodi i wneud hynny gan eu coleg / gwasanaeth.

   - Llenwi'r ffurflen yswiriant cerbydau ar-lein os ydynt yn bwriadu gyrru cerbyd wedi ei logi, (ni fydd y gyrrwr na'r cerbyd wedi eu hyswirio os na chaiff ei llenwi).

d. Darparu manylion eu trwydded yrru ar gais eu coleg / gwasanaeth.

e. Cadarnhau bod eu cerbyd eu hunain wedi ei yswirio ar gyfer defnydd busnes (wedi ei gadarnhau yn y datganiad ar y ffurflen hawlio teithio a chynhaliaeth).

f. Rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'w trwydded yrru (e.e. pwyntiau cosb / ardystiadau) i'r unigolyn priodol ar unwaith.

g. Gwneud archwiliadau diogelwch cyffredinol i'r cerbyd cyn cychwyn ar daith.

h. Rhoi gwybod yn syth i rywun cyfrifol am unrhyw ddiffygion / difrod er mwyn sicrhau nad yw cerbydau anniogel yn cael eu defnyddio.

i. Cadw golwg ar eu hiechyd a rhoi gwybod yn syth i'r rheolwr llinell ac / neu i'r Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol (os oes angen) am unrhyw gyflyrau meddygol:

   - A all achosi salwch sydyn ac / neu effeithio ar olwg, arwain at golli ymwybyddiaeth neu'r gallu i ganolbwyntio a allai eu rhoi hwy ac eraill mewn perygl pan fyddant yn gyrru.
   - Cyflyrau meddygol y mae'n rhaid hysbysu'r DVLA amdanynt, e.e. diabetes, anhwylderau'r galon ac anhwylderau niwrolegol, trafferthion cysgu, problemau gweld, alcohol a chyffuriau, materion iechyd meddwl.

j. Peidio â gyrru dan ddylanwad drwg meddyginiaeth wedi ei rhagnodi neu feddyginiaeth arall.

k. Peidio byth â gyrru dan ddylanwad alcohol.

l. Cydweithredu â threfniadau asesu iechyd gyrwyr (os yn berthnasol).

m. Rhoi gwybod am bob damwain neu ddigwyddiad a gafwyd wrth yrru.

## 8. SICRHAU CYDRADDOLDEB

Rhaid gwneud pob ymdrech i gefnogi unigolion fel eu bod yn cael eu trin yn gyfartal. Fodd bynnag, mewn rhai achosion prin iawn, efallai y bydd rhaid trin 'pobl â nodwedd warchodedig' yn wahanol er mwyn sicrhau bod gweithgareddau gyrru yn cael eu cyflawni'n ddiogel, i sicrhau cydymffurfiad â gofynion DVLA perthnasol, ac i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles eraill y gallai hynny effeithio arnynt.

## 9. GWYBODAETH BELLACH A CHYFARWYDDYD YMARFEROL

Yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y polisi hwn, ceir canllawiau mwy ymarferol a gweithdrefnol mewn nifer o daflenni gwybodaeth cysylltiedig sydd ar gael ar wefan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch. Mae’r rhain yn cynnwys Gweithdrefnau ar gyfer Cymeradwyo'r Gyrrwr; Diogelwch Cerbydau; Cynllunio Teithiau; Trelars a Cherbydau Tynnu; Safonau Meddygol ar gyfer Gyrwyr a Llawlyfr Diogelwch Gyrwyr a Theithwyr cynhwysfawr - canllawiau i'r rhai sy'n gyrru ar waith sy'n gysylltiedig â'r brifysgol.

## 10. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ARCHWILIO

Bydd Iechyd a Diogelwch yn cynnal archwiliadau cyffredinol ac achlysurol i sicrhau y cydymffurfir â’r polisi hwn a chyda'r ddeddfwriaeth yn gyffredinol.

Rhaid i'r colegau/gwasanaethau proffesiynol adolygu eu dulliau gweithredu eu hunain o bryd i'w gilydd, i sicrhau bod gofynion y polisi hwn yn cael eu gweithredu, a'u bod yn addas ac yn effeithiol.

Yn ogystal, gall Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y brifysgol o bryd i’w gilydd adolygu effeithiolrwydd system y brifysgol o ran rheoli gweithgareddau gyrru sy’n gysylltiedig â’r brifysgol.

**Diwedd.f**